

Cymysgu ar y fferm – y Rheoliad Hylendid Bwyd Anifeiliaid

Canllawiau ar ofynion HACCP ar gyfer ffermwyr

Cyflwyniad

- 1 Mae'r gofynion canlynol ar gynlluniau HACCP (Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol) yn ychwanegol i'r rheiny a amlinellir yn Atodiad I Rheoliad CE 183/2005 ar hylendid bwyd anifeiliaid, sy'n berthnasol i gynhyrchwyr cynradd. Mae canllawiau pellach ar ddefnyddio Atodiad I ar gael yn y [Cod Ymarfer ar Fwydo ar y Fferm](#) (Safonau Sicrwydd Bwyd) (Saesneg yn unig).
- 2 Mae canllawiau ar wahân ar gyfer ffermwyr ar gymysgu ychwanegion a rhag-gymysgeddau â deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar eu ffermydd eu hunain, sydd ar gael [yma](#). Dylid nodi nad yw'r canllawiau yn y ddogfen hon yn gymwys i'r broses o gymysgu a defnyddio ychwanegion bwyd anifeiliaid penodedig (e.e. cocsidiostatau a histomonostatau), sy'n dod o dan [ganllawiau](#) ar wahân sydd ar gael gan Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol Defra.

Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP)

- 3 Mae'n rhaid i ffermwyr da byw (cynhyrchwyr cynradd) sy'n prynu ychwanegion bwyd anifeiliaid a chynhyrchion rhag-gymysgu (ac eithrio asiantau silwair) ac yn eu cymysgu'n uniongyrchol â deunyddiau bwyd anifeiliaid (e.e. porthiant, grawnfwydydd) weithredu egwyddorion HACCP a chydymffurfio ag Atodiad II Rheoliad CE 183/2005 ar Hylendid Bwyd Anifeiliaid. Mae'n rhaid iddynt wneud hyn oherwydd y risgiau uwch a ystyrir i fod yn gysylltiedig â'r gweithgarwch hwn, gan fod llawer o ychwanegion (fitaminau, elfennau hybrin) yn destun cyfraddau ymgorffori uchaf mewn bwyd anifeiliaid terfynol. Gall lefelau gormodol o rai ychwanegion arwain at oblygiadau i iechyd anifeiliaid ac iechyd y rheiny sy'n defnyddio cynhyrchion anifeiliaid. Yn ogystal â helpu i sicrhau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, gall hylendid da a chymysgu bwyd anifeiliaid yn gywir arwain at fanteision perfformio i anifeiliaid.
- 4 Mae HACCP yn ddull systematig o reoli diogelwch. Yn ogystal, mae Atodiad II Rheoliad 183/2005 yn cynnwys mwy o ofynion penodol yn ymwneud â chyfleusterau, offer, storio a chadw cofnodion ac ati.
- 5 Bydd astudiaeth a system HACCP lawn yn dadansoddi pob cam o'r gweithgarwch bwyd anifeiliaid ar y fferm i nodi peryglon a all godi a'r ffordd orau i'w rheoli e.e. drwy Bwyntiau Rheoli Critigol. Efallai bod rhai ffermwyr yn dymuno ystyried y dull hwn. Fodd bynnag, mae Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd yn cydnabod mewn rhai achosion nad yw'n bosibl nodi Pwyntiau Rheoli Critigol, ond ei bod yn angenrheidiol mabwysiadu arferion da.

Canllawiau

- 6 Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ofynion Atodiad II y Rheoliad fel y maent yn gymwys i ffermwyr da byw sy'n cymysgu ychwanegion bwyd anifeiliaid a rhag-gymysgeddau ar eu daliadau/ffermydd eu hunain.
- 7 Mae'r golofn ar ochr chwith y tabl canlynol yn nodi'r gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid eu bodloni. Mae'r testun mewn ysgrifen *italig* ym mhob blwch yn y golofn ar y chwith yn seiliedig ar Atodiad II Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r golofn ar y dde yn rhoi cyngor ar arfer gorau, er nad oes gofyn i chi ddilyn y cyngor hwn er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.

Gofyniad cyfreithiol, cyfeiriad cyfreithiol a disgrifiad o ofynion cyfreithiol. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r gofynion hyn	Cyngor ar arfer gorau. Fe all eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith, ond nid oes yn rhaid i chi ei ddilyn
Cyfleusterau ac Offer	
<p><i>Mae'n rhaid i gyfleusterau ac offer a ddefnyddir i gymysgu ychwanegion a rhag-gymysgeddau fod yn destun gwiriadau priodol yn rheolaidd, yn unol â gweithdrefnau cofnodedig sydd wedi'u sefydlu ymlaen llaw (Atodiad II, Adran 'Cyfleusterau ac Offer', paragraff 3)</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen i chi gadw peiriannau bwyd anifeiliaid yn lân, mewn cyflwr y gellir eu defnyddio ac yn rhydd rhag unrhyw wastraff sydd wedi casglu, gan fynd ati i wirio hyn yn weledol yn rheolaidd. • Cadw a dilyn cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr er mwyn cynnal a chadw a glanhau offer yn ddigonol. Lle nad oes cyfarwyddiadau o'r fath ar gael, cofnodwch yn gryno y mesurau glanhau a chynnal a chadw a gynhelir. • Cofiwch gadw cofnod o'r holl waith glanhau a chynnal a chadw a gynhelir. 	<ul style="list-style-type: none"> • Fe all cynnal cofnodion glanhau offer fod mor hawdd a chadw copi o wiriadau cwmni cynnal a chadw.
<p><i>Mae'n rhaid i'r holl gymysgwyr a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid fod yn briodol ar gyfer amrywiaeth o bwysau a chyfeintiau a dylent fod â'r gallu i weithgynhyrchu unrhyw gymysgeddau a gwanadau (dilutions) (gweler Atodiad II, adran 'Cyfleusterau ac Offer', paragraff 3(b))</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Argymhellir bod profion homogenedd yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar y lleiaf, ac y caiff y canlyniadau eu cadw tan y gwiriad nesaf. • Hyd yn oed os yw'r peiriant yn addas ar gyfer y cymysgeddau bwyd anifeiliaid sy'n cael eu cynhyrchu, mae'n rhaid ei weithredu'n gywir er mwyn sicrhau cymysgedd homogenaidd.

Dyfeisiau pwyso a mesur	
<p><i>Mae'n rhaid i'r holl ddyfeisiau pwyso a mesur a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid fod yn addas ar gyfer amrywiaeth o bwysau neu gyfeintiau a chael eu profi am gywirdeb yn rheolaidd (Gweler Atodiad II, adran 'Cyfleusterau ac Offer', paragraff 3(a))</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadw cofnod o'r holl wiriadau a gynhelir. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid cadw cofnod am o leiaf blwyddyn.

<p>Gofyniad cyfreithiol, cyfeiriad cyfreithiol a disgrifiad o ofynion cyfreithiol. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r gofynion hyn</p>	<p>Cyngor ar arfer gorau. Fe all eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith, ond nid oes yn rhaid i chi ei ddilyn</p>
Staff	
<p><i>Mae'n rhaid i staff gael y sgiliau digonol ar gyfer cymysgu cynhyrchion sy'n cynnwys ychwanegion a rhag-gymysgeddau (gweler Atodiad II, adran Personél)</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod staff sy'n ymwneud â chymysgu bwyd anifeiliaid yn cael hyfforddiant drwy gyfarwyddyd e.e. gan aelod mwy profiadol o staff neu gan gyflenwyr yr offer. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cadw cofnod o'r holl hyfforddiant a ddarperir. (Dylid cadw cofnod am o leiaf blwyddyn.) • Sicrhau bod staff yn ymarfer y cyfarwyddiadau a roddir iddynt.
Cynhyrchu	
<p><i>Mae'n rhaid cynnal gweithrediadau cymysgu yn unol â gweithdrefnau a chyfarwyddiadau ysgrifenedig sydd wedi'u sefydlu ymlaen llaw (gweler Atodiad II, adran 'Cynhyrchu', paragraff 2)</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal gweithdrefn neu gyfarwyddiadau cofnodedig ar gyfer gweithrediadau cymysgu. • Glynw at gyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio ychwanegion a rhag-gymysgeddau, e.e. y cyfraddau ymgorffori a nodir ar y labeli. • Cadw cofnod o fformiwleiddiadau, gan gynnwys dyddiadau gweithgynhyrchu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gall cyfarwyddiadau ar gyfer gweithrediadau cymysgu gynnwys cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwr yr offer. • Cymerwch sampl gynrychioladol o'r bwyd anifeiliaid tertynol bob tro y caiff swp (<i>batch</i>) newydd o fwyd anifeiliaid ei gynhyrchu. • Cadw samplau o fwyd anifeiliaid sych am bedair wythnos.
<p><i>Mae'n rhaid rhoi mesurau ar waith i atal croeshalogi, e.e. o un swp i'r llall (gweler Atodiad II, adran 'Cynhyrchu', paragraff 3)</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Lle mae fformiwleiddiadau yn newid, ewch ati i lanhau'r offer cymysgu yn drylwyr a fflycio deunydd bwyd anifeiliaid drwy'r system.

Storio	
<p><i>Mae'n rhaid storio ychwanegion a rhag-gymysgeddau ar wahân i fwyd anifeiliaid a deunyddiau bwyd anifeiliaid wedi'u prosesu i atal croeshalogi (gweler Atodiad I, adran 'Storio a Chludo', paragraff 1)</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Storiwch ychwanegion a rhag-gymysgeddau mewn adeilad ar wahân i fwyd anifeiliaid a deunydd bwyd anifeiliaid wedi'i brosesu. • Os nad yw hynny'n ymarferol, sicrhewch y caiff ychwanegion a rhag-gymysgeddau eu storio mewn bagiau, a'u bod wedi'u gwahanu'n ddigonol i atal croeshalogi.
Cofnodion	
<p><i>Mae'n rhaid cadw cofnodion o enw a chyfeiriad cyflenwyr yr ychwanegion a'r rhag-gymysgeddau a'r symiau o ychwanegion a rhag-gymysgeddau a ddefnyddir, a chofnodi rhifau swp (gweler Atodiad II, adran 'Cadw Cofnodion', paragraff 2(b)(iv))</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadw cofnodion perthnasol, e.e. labeli bwyd anifeiliaid, anfonebau, derbynebau, nodiadau cyflenwi. • Sicrhewch fod y cofnodion ar gael i awdurdodau gorfodi er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r gofynion. 	<ul style="list-style-type: none"> • Efallai bod rhai ffermwyr yn dymuno llunio cynllun HACCP ffurfiol. Fodd bynnag, efallai y byddai'n ddigonol cadw'r holl gofnodion a'r dogfennau a nodir yn y canllawiau hyn mewn un lle neu gadw nodyn o ble maent yn cael eu cadw. • Cadw cofnodion am o leiaf blwyddyn.